# Cynllun Grant Gwella Asedau Sector Cyhoeddus 4G+

# **Canllawiau Gwneud Cais**

Dyddiad cyhoeddi: 7fed Gorffenaf 2026

Fersiwn: 1.0

*Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.*

## Tabl Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 5

1 Cyflwyniad ........ 5

1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru ........ 5

1.2 Rhaglen Cysylltedd Digidol ........ 5

1.3 Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ ........ 6

1.4 Cynllun Grant Gwella Asedau Sector Cyhoeddus 4G+ ........ 6

1.5 Ystyriaethau Hanfodol i bob Ymgeisydd ........ 9

1.5.1 Asesu treigl a blaenoriaethu ........ 9

1.5.2 Cyfradd ariannu a llif arian ........ 9

1.5.3 Caffael a chydymffurfiaeth ........ 9

1.5.4 Rhwymedigaethau Mynediad Agored ........ 9

1.5.5 Cydlyniad â defnydd y diwydiant ........ 9

1.6 Asesu Risg ........ 10

1.6.1 Trosolwg ........ 10

1.6.2 Categorïau Risg ........ 10

2 Egwyddorion a Meini Prawf y Cynllun ........ 11

2.1 Meini Prawf Cymhwysedd ac Asesu ........ 11

2.1.1 Cymhwysedd ymgeisydd ........ 12

2.1.2 Lleoliad y prosiect ........ 12

2.1.3 Ymgysylltu â Gweithredwyr ........ 12

2.1.4 Gweithgaredd Newydd ........ 12

2.1.5 Argaeledd cyllid gan gynnwys llif arian ........ 12

2.1.6 Hyfywedd ariannol a llywodraethu ........ 12

2.1.7 Cymhwysedd gwariant prosiect ........ 13

2.1.8 Caffael ........ 13

2.1.9 Addasrwydd strategol ........ 13

2.1.10 Deilliannau gorfodol ........ 13

2.1.11 Deilliannau ychwanegol ........ 14

2.1.12 Gwerth am arian ........ 14

2.1.13 Cyflawnadwyedd prosiect ........ 14

2.1.14 Amserlen y prosiect ........ 14

2.1.15 Technoleg ........ 14

2.1.16 Rheoli Cymhorthdal ........ 15

2.1.17 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant .... 15
2.1.18 Diwydrwydd Dyladwy .... 15
2.1.19 Preifatrwydd a chyfrinachedd .... 15
2.2 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys .... 15
2.3 Y Broses Ymgeisio .... 16
2.3.1 Trosolwg o'r Broses .... 16
2.4 Cyfnod Datganiad o Ddiddordeb (EOI) .... 16
2.4.1 Safleoedd targed .... 16
2.4.2 Cyflwyno EOI .... 16
2.4.3 Asesu EOI .... 16
2.4.4 Penderfyniad EOI .... 16
2.5 Cyfnod Ymgeisio .... 16
2.5.1 Cyflwyno cais .... 16
2.5.2 Asesu cais .... 17
2.5.3 Penderfyniad ar y cais .... 17
2.6 Cynllunio Defnyddio a Galluogi Safle .... 17
3 Proses Dyfarnu ac Ôl-ddyfarnu .... 18
3.1 Cytundeb Cyllid Grant (GFA) .... 18
3.1.1 Templed GFA .... 18
3.1.2 Telerau ac Amodau Atodlen 1 y GFA .... 18
3.1.3 Canlyniadau a Cherrig Milltir Atodlen 2 y GFA .... 18
3.1.4 Rhagolwg Gwariant Atodlen 3 y GFA .... 18
3.2 Cychwyn a Chyflawni'r Prosiect .... 18
3.2.1 Cyfarfod Cychwyn y Prosiect (PIM) .... 18
3.2.2 Monitro ac adrodd ar brosiectau .... 18
3.2.3 Newidiadau i'r prosiect .... 18
3.3 Hawliadau .... 19
3.3.1 Proses hawlio .... 19
3.3.2 Tystiolaeth hawliadau .... 19
4 Monitro a Gwerthuso .... 20
4.1 Gwirio perfformiad .... 20
4.2 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol .... 20
5 Atodiadau .... 20
Atodiad 1. Dogfennau a dolenni cysylltiedig (dalfannau) .... 20

Atodiad 2. Templed Amlinelliad Cynllun Defnyddio ....... 20
Atodiad 3. Geirfa (termau dethol) ....... 20
Atodiad 4. Cytundeb Cyllid Grant ....... 22

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r canllaw hwn yn nodi sut y gall sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud cais i Gynllun Grant Gwella Asedau Sector Cyhoeddus 4G+ Uchelgais Gogledd Cymru (y "Cynllun"). Mae'r Cynllun yn darparu cyllid cyfalaf o hyd at 100% o'r costau cymwys i uwchraddio neu ddisodli asedau presennol y sector cyhoeddus fel y gellir defnyddio technoleg 4G a 5G arnynt. Mae'r Cynllun yn rhan o Brosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ o fewn Rhaglen Cysylltedd Digidol, Portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'n ategu'r Cynllun Grant Diwydiant 4G+ sy'n cefnogi Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs), *hosts* niwtral a darparwyr seilwaith i ddefnyddio ac uwchraddio seilwaith symudol, trwy wella parodrwydd asedau cyhoeddus a lleihau rhwystrau i ddefnydd symudol. Mae'r canllaw hwn yn esbonio cymhwysedd, meini prawf asesu, y broses ymgeisio treigl, a'r gofynion ar ôl y dyfarniad gan gynnwys Mynediad Agored, cydymffurfiaeth caffael, hawliadau, monitro a gwerthuso.

# 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a elwir yn Uchelgais Gogledd Cymru, yn gorff rhanbarthol sydd â chyfrifoldebau am drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol yn ogystal â chyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd gogledd Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Gorchwyl Uchelgais Gogledd Cymru yw cyflawni gwaith Cynllun Twf Gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i'r Gogledd er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn GVA. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus.

### 1.2 Rhaglen Cysylltedd Digidol

Mae'r rhaglen Cysylltedd Digidol yn un o nifer o raglenni'r Cynllun Twf ac mae wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â heriau cysylltedd yng ngogledd Cymru.  Er bod gweddill y DU wedi elwa o wasanaethau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan lawer o'n cymunedau gysylltedd band eang symudol a sefydlog cryf. Bydd y Rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym o ansawdd uchel.

Mae gan Cysylltedd Digidol ddyraniad cyllid o £29.81 miliwn o'r Cynllun Twf a bydd yn trosoli cyllid pellach gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.  Bydd y Rhaglen yn cyflwyno cysylltedd cynaliadwy i'r rhanbarth, yn denu mewnfuddsoddiad ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mwy o drigolion a busnesau gan arwain at Werth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol a chreu swyddi.

## 1.3 Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+

Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Cysylltedd Digidol yn cynnwys tri phrosiect; un ohonynt yw'r Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+. Mae amcanion y prosiect hwn fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaeth 4G neu 5G gan yr holl Weithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs) gan gynnwys dan do, awyr agored ac mewn cerbydau mewn lleoliadau allweddol ar hyd coridorau rheilffyrdd a thrafnidiaeth ac ar safleoedd busnes a thwristiaeth; cyn belled â phosibl o fewn y gyllideb sydd ar gael erbyn Ionawr 2030 mewn amodau poblogaeth arferol ar gyfer y lleoliad, h.y. ar adegau prysur tebygol, ac nid ar gyfartaledd yn unig.
- Sicrhau bod gogledd Cymru wedi'i harfogi ar gyfer symud i ddarpariaeth 5G o dan 6GHz pan fo'r MNOs yn uwchraddio eu rhwydweithiau.
- Cyflawni cynnydd o hyd at £9m mewn GVA erbyn 2036
- Darparu 28.5 o swyddi anuniongyrchol erbyn 2036.
- Sicrhau buddsoddiad sector preifat o £2m erbyn 2036.

## 1.4 Cynllun Grant Gwella Asedau Sector Cyhoeddus 4G+

Mae Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G+ yn darparu grantiau cyfalaf wedi'u targedu i sefydliadau'r sector cyhoeddus i uwchraddio neu ddisodli asedau presennol fel y gellir defnyddio technoleg 4G+ (4G, 5G nad yw'n annibynnol a 5G annibynnol) arnynt. Gall gwaith cymwys gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ailosod colofnau goleuadau sydd wedi dyddio, gosod neu uwchraddio cyflenwadau pŵer, gosod *'backhaul'* ffibr neu ddwythellau, gwella mynediad at strwythurau, neu atgyfnerthu strwythurau i ddarparu ar gyfer offer telathrebu.

Ar ôl eu huwchraddio, rhaid i asedau a gefnogir gan y Cynllun hwn fod ar gael i weithredwyr masnachol drwy Gytundebau Mynediad Agored nad ydynt yn unigryw (neu drefniadau mynediad cyfatebol nad ydynt yn gwahaniaethu). Mae'r Cynllun hwn yn ategu'r Cynllun Grant Diwydiant 4G+ a ddisgrifir isod trwy alluogi'r seilwaith "lletya" sydd ei angen ar gyfer ei ddefnyddio a thrwy leihau rhwystrau sy'n gysylltiedig ag addasrwydd asedau, pŵer ac argaeledd *'backhaul'*.


Y *Diwydiant 4G+* Mae'r cynllun grant wedi'i gynllunio i ddarparu cymorthdaliadau wedi'u targedu i Weithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs), *hosts* niwtral a darparwyr seilwaith ar gyfer defnyddio ac uwchraddio seilwaith symudol 4G a 5G mewn lleoliadau *Total Not Spot* (TNS) a *Partial Not Spot* (PNS) yng ngogledd Cymru.

Crëwyd y Cynllun Grant Diwydiant 4G+ oherwydd bod bwlch hyfywedd masnachol yn bodoli yn yr ardaloedd hyn sydd heb eu gwasanaethu ac mae ymgysylltu â'r farchnad wedi cadarnhau bod angen cyllid cyhoeddus i ddarparu'r cymhelliant angenrheidiol i weithredwyr masnachol fuddsoddi. Bydd y Cynllun yn darparu cymorthdaliadau i bontio'r bwlch hyfywedd masnachol a gwneud defnydd mewn lleoliadau heb eu gwasanaethu yn fasnachol hyfyw, gan ddarparu'r cymhelliant angenrheidiol i gynhyrchu'r cynnydd angenrheidiol mewn gwasanaeth symudol a chapasiti effeithiol.

Anogir ymgeiswyr Cynllun Grant Diwydiant 4G+ i ymgysylltu â'r diwydiant rhwydwaith symudol i gydlynu gweithgareddau ar safleoedd lle gallai buddsoddiad fod ar gael drwy'r ddau gynllun. Anogir hefyd bod ymgeiswyr Cynllun Grant Diwydiant 4G+ yn ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus lle bo hynny'n briodol.

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno cais i Gynllun Gwella Asedau Sector Cyhoeddus 4G+ (y 'Cynllun'), yn esbonio'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu ceisiadau a phenderfynu a ddylid dyfarnu grantiau, ac yn disgrifio'r hawliadau a'r prosesau monitro ar gyfer derbynwyr grantiau.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd.  Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.




Ffigwr 1 Cynlluniau Grant Prosiect 4G+

### 1.5 Ystyriaethau Hanfodol i bob Ymgeisydd

Cynghorir ymgeiswyr i ystyried y materion a nodir isod cyn penderfynu a ddylid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (EOI) i'r Cynllun.

#### 1.5.1 Asesu treigl a blaenoriaethu

Nid yw cyflwyno EOI neu gais yn rhoi hawl awtomatig i ymgeisydd dderbyn grant. Mae'r Cynllun yn gweithredu ar sail dreigl a bydd yn cael ei flaenoriaethu yn ôl anghenion strategol, parodrwydd, effaith galluogi a'r gyllideb sydd ar gael. Mae'r penderfyniad i ddyfarnu grant neu beidio yn ôl disgresiwn llwyr Uchelgais Gogledd Cymru.

#### 1.5.2 Cyfradd ariannu a llif arian

Gall grantiau ariannu hyd at 100% o'r costau cyfalaf cymwys. Fodd bynnag, gwneir taliadau grant mewn ôl-ddyledion. Rhaid i ymgeiswyr felly allu darparu llif arian ar gyfer y prosiect a darparu tystiolaeth o allu ariannol i wneud hynny.

#### 1.5.3 Caffael a chydymffurfiaeth

Bydd ymgeiswyr yn rheoli ac yn caffael uwchraddiadau eu hunain. Rhaid i bob ymarferiad caffael ddilyn Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal â rhwymedigaethau a pholisïau caffael yr ymgeisydd ei hun. Rhaid i ymgeiswyr gadw cofnodion caffael, rheoli contractau a thaliadau cyflawn ar gyfer archwilio a sicrwydd.

#### 1.5.4 Rhwymedigaethau Mynediad Agored

Mae Mynediad Agored yn ofyniad canolog y Cynllun. Rhaid i asedau wedi'u huwchraddio fod ar gael i'w defnyddio gan weithredwyr telathrebu a/neu ddarparwyr seilwaith ar sail mynediad agored nad yw'n unigryw. Bydd gofynion Mynediad Agored yn cael eu hasesu fel rhan o'r cais a'u gorfodi drwy'r Cytundeb Cyllid Grant. Dylai ymgeiswyr naill ai fod â Chytundebau Mynediad Agored ar waith neu ymrwymo i gadarnhau'r rhain cyn cymeradwyo cyllid.

#### 1.5.5 Cydlyniad â defnydd y diwydiant

Anogir ymgeiswyr i gydlynu cynigion gyda darpar ddefnyddwyr yr asedau (e.e. MNOs, *hosts* niwtral, darparwyr seilwaith) ac i alinio cyflawniad â chynlluniau defnyddio'r diwydiant lle bo hynny'n bosibl. Lle bo hynny'n briodol, dylai ymgeiswyr ystyried alinio â chynigion a gefnogir drwy Gynllun Grant Diwydiant 4G+. Gall Uchelgais Gogledd Cymru gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r diwydiant lle bo angen.

Bydd yr Ymgeisydd a Gweithredwyr y Rhwydwaith sy'n elwa o'r defnydd o asedau a uwchraddiwyd drwy Grant Gwella Asedau Sector Cyhoeddus yn derbyn Cymhorthdal gan yr Ymgeisydd o dan delerau Cynllun Cymhorthdal 4G+ Uchelgais Gogledd Cymru (2.1.16).

## 1.6 Asesu Risg

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y bydd risg yn cael ei werthuso yn ystod y camau Datganiad o Ddiddordeb (EOI) a'r camau ymgeisio llawn. Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar risg yw lefel yr ymgysylltiad rhwng Sefydliadau Sector Cyhoeddus (PSOs) a Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs) neu *hosts* niwtral. Rhaid i ymgeiswyr adolygu'r categorïau risg hyn yn ofalus cyn cyflwyno EOI.

### 1.6.1 Trosolwg

Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni’r gweithgaredd arfaethedig a bod cyllid y sector cyhoeddus yn cael ei ddyrannu'n briodol, bydd pob EOI a chais yn cael asesiad risg. Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar p'un a yw:

- Ymgysylltu yn digwydd â gweithredwyr;
- Cytundebau mynediad yn bwrw ymlaen neu'n cael eu cwblhau;
- Gweithredwyr neu *hosts* niwtral wedi ymrwymo, mewn egwyddor, i ddefnydd ar asedau'r sector cyhoeddus.

Mae'r categorïau isod yn amlinellu'r lefelau risg sy'n cynyddu a lleihau:

### 1.6.2 Categorïau Risg

#### *1.6.2.1 Risg Uchaf – Ni chaniateir EOI*

Nid oes unrhyw ymgysylltiad wedi digwydd rhwng y Sefydliad Sector Cyhoeddus ac unrhyw Weithredwr Rhwydwaith Symudol neu *host* niwtral.

Goblygiadau:

- Mae hyn yn cynrychioli'r risg cyflawni uchaf posibl.
- Ni ddylid cyflwyno EOI.
- Bydd unrhyw gyflwyniad a dderbynnir ar y lefel hon yn cael ei wrthod yn awtomatig.

#### *1.6.2.2 Risg Uchel – Gall EOI fwrw ymlaen os darperir tystiolaeth*

Mae ymgysylltu â gweithredwyr wedi dechrau ond mae'n gyfyngedig i sgyrsiau cynnar. Nid oes cytundebau mynediad drafft na llwybrau defnydd clir yn bodoli.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos hyn er mwyn bwrw ymlaen â'r cais:

- Deialog weithredol gyda gweithredwyr.
- Tystiolaeth bod trafodaethau'n mynd rhagddynt tuag at ddrafftio a llofnodi cytundebau mynediad.
- Amserlenni defnyddio dangosol.

Os darperir tystiolaeth foddhaol, efallai y caniateir i'r ymgeisydd symud ymlaen i'r cam ymgeisio llawn.

#### *1.6.2.3 Risg Gymedrol – Derbynnir EOI yn gyffredinol*

Mae rhai cytundebau mynediad eisoes wedi'u llofnodi, ond nid yw'r holl gytundebau sy'n ofynnol ar gyfer defnydd ar waith.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos:

- Un neu fwy o gytundebau mynediad wedi'u llofnodi.
- Llwybr credadwy i gwblhau'r cytundebau sy'n weddill.
- Y bydd yr EOI yn cefnogi cwblhau'r gweithgaredd sy'n weddill.

Yn gyffredinol, bydd EOIs ar y lefel hon yn cael eu derbyn i fynd ymlaen i wneud cais llawn.

#### *3.6.1.1 Risg Isaf – sefyllfa ymgeisio gref*

Mae'r holl gytundebau mynediad gofynnol ar waith rhwng Sefydliad y Sector Cyhoeddus a gweithredwyr/*hosts* niwtral ac mae defnydd mewn egwyddor wedi'i sicrhau.

Mae defnydd mewn egwyddor yn golygu:

- Mae gweithredwyr neu *hosts* niwtral wedi ymrwymo'n ffurfiol i ddefnydd ar asedau'r sector cyhoeddus a nodwyd.
- Bydd y defnydd yn mynd rhagddo yn amodol ar gymeradwyaeth cyllid a gwiriadau safonol.

Gofynion wrth wneud cais llawn:

- Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau bod ganddynt ddefnydd mewn egwyddor.
- Rhaid i weithredwyr ddarparu llythyr ysgrifenedig yn ymrwymo i ddefnydd.
- Ni fydd unrhyw hawliadau am gyllid yn cael eu prosesu nes bod yr ymrwymiad i ddefnydd yn cael ei dderbyn.

| Lefel Risg | Statws Ymgysylltu | Cymwys am EOI? | Gofynion |
|---|---|---|---|
| Risg Uchaf | Dim ymgysylltu â gweithredwyr | Nac ydy | Peidiwch â chyflwyno; gwrthod yn awtomatig |
| Risg Uchel | Ymgysylltu cynnar yn unig | O bosibl | Tystiolaeth o gynnydd ac amserlenni defnyddio |
| Risg Cymedrol | Rhai cytundebau mynediad wedi'u llofnodi | Ydy | Llwybr i sicrhau cytundebau sy'n weddill |
| Risg Isaf | Pob cytundeb + defnydd mewn egwyddor | Ydy (Hyn yn cael ei ffafrio) | Ymrwymiad ysgrifenedig yn ofynnol cyn hawliadau |

Tabl 1 Asesiad Crynodeb Risg

# 2 Egwyddorion a Meini Prawf y Cynllun

## 2.1 Meini Prawf Cymhwysedd ac Asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu a'u sgorio yn erbyn yr egwyddorion a'r meini prawf a nodir isod. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus lle bo'n ymarferol. Nid yw trefn y meini prawf yn nodi pwysiad. Yn gyffredinol, y meini prawf sy'n cario'r pwysau mwyaf yw: parodrwydd, effaith, cydymffurfiaeth Mynediad Agored, cyflawnadwyedd a gwerth am arian.

### 2.1.1 Cymhwysedd ymgeisydd

Mae'r Cynllun yn agored i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n berchen ar asedau cymwys, sy'n gweithredu neu'n rheoli asedau cymwys yng ngogledd Cymru. Mae ymgeiswyr cymwys yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): awdurdodau lleol; awdurdodau parciau cenedlaethol; cyrff iechyd; gwasanaethau brys; sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach; a chyrff sector cyhoeddus eraill. Rhaid i ymgeiswyr allu ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant (GFA) gydag Uchelgais Gogledd Cymru.

### 2.1.2 Lleoliad y prosiect

Rhaid i'r holl brosiectau fod wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru, o fewn siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Gall gwariant y tu allan i'r rhanbarth fod yn gymwys dim ond pan fo'n angenrheidiol i'r prosiect gyflawni ei amcanion rhanbarthol (er enghraifft, galluogi *'backhaul'* ffibr i gysylltu â rhwydwaith ehangach). Rhaid nodi, disgrifio a chostio unrhyw wariant y tu allan i'r rhanbarth yn glir.

### 2.1.3 Ymgysylltu â Gweithredwyr

Dim ond pan fo ymrwymiad gan weithredwr(wyr) rhwydwaith i ddefnyddio'r ased gwell i ddarparu cysylltedd symudol yn unol ag amcanion y Cynllun y bydd ceisiadau i'r Cynllun yn cael eu cymeradwyo. Felly, mae'n ofynnol i ymgeiswyr sicrhau'r lefel briodol o ymrwymiad gan weithredwr(wyr) rhwydwaith cyn cyflwyno eu cais. Argymhellir bod ymgysylltiad yn digwydd cyn gynted â phosib gyda gweithredwyr rhwydwaith er mwyn sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol, yn ddelfrydol yn y cam Datganiad o Diddordeb.

### 2.1.4 Gweithgaredd Newydd

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i alluogi prosiectau newydd na ellir eu cynnal heb gymorth grant. Gellir darparu cymorth ar gyfer buddsoddiadau i wella gwaith presennol neu wedi'i gynllunio sydd eisoes wedi dechrau neu y mae ymrwymiad ariannol rhwymol eisoes wedi'i wneud iddo cyn dyddiad dechrau'r prosiect yn y GFA; fodd bynnag, dim ond y costau hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni ei amcanion y gall y Cynllun gefnogi. Nid yw gwaith cynnal a chadw arferol a chydymffurfiaeth statudol yn gymwys oni bai eu bod yn rhan annatod o wneud ased sy'n addas ar gyfer defnydd 4G+ a chytunir arnynt fel cymwys yn y GFA.

### 2.1.5 Argaeledd cyllid gan gynnwys llif arian

Er y gall y Cynllun ariannu hyd at 100% o'r costau cyfalaf cymwys, rhaid i ymgeiswyr ddarparu llif arian i gyflawni'r prosiect oherwydd bod grantiau'n cael eu talu mewn ôl-ddyledion. Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau gallu ariannol a chymeradwyaethau mewnol i fwrw ymlaen (e.e., dyraniad cyllideb, awdurdod dirprwyedig neu benderfyniad pwyllgor), fel bo'n briodol.

### 2.1.6 Hyfywedd ariannol a llywodraethu

Rhaid i ymgeiswyr ddangos trefniadau llywodraethu a sicrwydd priodol ar gyfer rheoli prosiectau cyfalaf, gan gynnwys rheolaethau ariannol, cymeradwyaethau, adrodd prosiectau, a pharodrwydd archwilio. Gall Uchelgais Gogledd Cymru ofyn am dystiolaeth fel cyfrifon diweddar sydd wedi'u harchwilio, cymeradwyaethau rhaglenni cyfalaf, a chadarnhad o drefniadau swyddog atebol yr ymgeisydd.

### 2.1.7 Cymhwysedd gwariant prosiect

Mae'r Cynllun yn gronfa grant cyfalaf. Dim ond tuag at fuddsoddiadau cyfalaf cymwys mewn asedau diriaethol, a llafur cyfalafol y gellir ei briodoli'n uniongyrchol, y gellir defnyddio cymorth grant. Rhaid i'r gwariant cymwys gael ei restru a'i gostio yn y cais a bydd yn cael ei gytuno yn y GFA.

Gall gwariant cymwys gynnwys (yn amodol ar gytundeb):

- Amnewid neu atgyfnerthu colofnau goleuadau, colofnau amlswyddogaeth, polion, mastiau, toeau neu strwythurau eraill i fodloni gofynion llwytho a mowntio.
- Uwchraddio pŵer (cyflenwadau newydd neu wedi'u huwchraddio, colofnau bwydo, ceblau, daearu, mesurydd, a gwaith sifil cysylltiedig sy'n ofynnol i gefnogi offer telathrebu).
- Gwaith sy'n galluogi *'backhaul'* ffibr, dwythellau a chysylltedd (gan gynnwys gwaith sifil a ffyrdd-freintiau/caniatâd lle bo'n gymwys).
- Gwelliannau mynediad a gwaith galluogi sydd eu hangen ar gyfer gosod a chynnal a chadw diogel (e.e., systemau mynediad to, seiliau cabinet, llwyfannau gweithio diogel).
- Arolygon a dylunio (dylunio strwythurol, trydanol, ffibr a mynediad) sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith cyfalaf.
- Costau llafur rheoli a gweithredu prosiect lle y gellir eu cyfalafu ac y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyflawniad.

### 2.1.8 Caffael

Rhaid caffael cyflenwyr yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru a rhwymedigaethau caffael yr ymgeisydd ei hun. Rhaid i ymgeiswyr gadw cofnodion llawn o gaffael a rheoli contractau. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i adolygu dogfennaeth gaffael a gall atal neu adennill grant yn ôl pan nodir diffyg cydymffurfio.

### 2.1.9 Addasrwydd strategol

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu ar gyfer pa mor dda maent yn cyd-fynd ag amcanion Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ - gweler adran 1.3. Disgwylir rhoi blaenoriaeth i gynigion sy'n galluogi defnydd mewn ardaloedd gyda galw uchel neu lle gwyddys bod materion gwasanaeth (*coverage*) a pherfformiad yn sylweddol (e.e., canol trefi, parciau busnes, coridorau trafnidiaeth a chyrchfannau ymwelwyr allweddol). Gellir defnyddio model blaenoriaethu safleoedd Uchelgais Gogledd Cymru yma. Ymgynghorwch ag Uchelgais Gogledd Cymru i drafod safleoedd a flaenoriaethwyd lle bo angen.

### 2.1.10 Deilliannau gorfodol

Rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r Cynllun gynhyrchu'r deilliannau isod, gyda mesurau a gofynion tystiolaeth y cytunwyd arnynt yn y GFA:

- Uwchraddio asedau wedi'i gyflawni yn unol â'r fanyleb dechnegol y cytunwyd arni (parodrwydd safle wedi'i gyflawni).
- Mynediad Agored wedi'i weithredu (neu gyfwerth) ac ar gael ar sail nad yw'n unigryw, anwahaniaethol.
- Llwybr defnydd clir sy'n cael ei dystiolaethu gan ymgysylltu â gweithredwyr a/neu lwybr credadwy ar gyfer defnydd.
- Gwell gwasanaeth 4G/5G trwy ddefnyddio asedau gwell o fewn cyfnod diffiniedig fel y cytunwyd arno yn y GFA.

- Buddsoddiad uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y sector preifat o ganlyniad i'r ased wedi'i uwchraddio.
- Ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori, gan gynnwys mesurau i leihau carbon ymgorfforedig a gweithredol.
- Gwerth cymdeithasol wedi'i gyflawni fel y cynigiwyd gan yr ymgeisydd ac y cytunwyd arno yn y GFA.

### 2.1.11 Deilliannau ychwanegol

Gall ymgeiswyr gynnig deilliannau ychwanegol fel gwelliannau bioamrywiaeth, datblygu sgiliau, buddion cadwyn gyflenwi leol, ymgysylltu â'r gymuned, neu welliannau gwasanaeth cyhoeddus. Pan fo hynny'n cael ei gynnig, rhaid i ymgeiswyr esbonio sut y bydd deilliannau ychwanegol yn cael eu cyflawni, eu mesur a'u tystiolaethu. Gall partneriaid y diwydiant gyfrannu at ddeilliannau a bydd Ymgeiswyr yn gyfrifol am gofnodi, profi ac adrodd ar y dangosyddion perthnasol.

### 2.1.12 Gwerth am arian

Bydd gwerth am arian yn cael ei asesu yn ôl i ba raddau y mae'r gwelliant asedau yn galluogi defnydd symudol ac o fudd i ddefnyddwyr o'i gymharu â'r grant y gofynnwyd amdano. Dylai ymgeiswyr feintioli, lle bo'n bosibl, graddfa debygol y budd (e.e., nifer y defnyddwyr, adeiladau, ymwelwyr, teithiau, neu leoliadau gwasanaeth a allai elwa). Dylai ceisiadau hefyd ddangos bod costau'n rhesymol (wedi'u cefnogi gan feincnodi, dyfynbrisiau neu amcangyfrifon) a bod y dyluniad yn osgoi cwmpas diangen. Efallai y bydd Ymgeiswyr yn ymgynghori â phartneriaid y diwydiant i ddarparu tystiolaeth ategol o'r effaith arfaethedig yn ystod y camau Datganiad o Ddiddordeb a gwneud cais.

### 2.1.13 Cyflawnadwyedd prosiect

Rhaid i brosiectau fod yn dechnegol hyfyw, wedi'u cynllunio'n dda ac yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen arfaethedig. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu cynllun prosiect sy'n cynnwys cerrig milltir a dyddiadau, cofrestr risg gyda mesurau lliniaru ymarferol, a thystiolaeth o ganiatâd gofynnol neu gynllun credadwy i'w sicrhau. Dylai ymgeiswyr ddangos gallu a chapasiti i gyflawni prosiectau gwaith cyfalaf tebyg.

### 2.1.14 Amserlen y prosiect

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu amcangyfrif realistig o'r amser sydd ei angen i gwblhau'r prosiect a chynllun cyflawni gyda cherrig milltir allweddol. Rhaid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen a nodir yn y GFA. Gan fod gan y prosiect 4G+ ehangach gerrig milltir cyflawni hyd at fis Mawrth 2030, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn disgwyl i'r prosiectau gwblhau erbyn Ionawr 2030 gyda'r holl grantiau wedi'u talu erbyn mis Mawrth 2030, oni bai y cytunwyd fel arall. Gall ymgeiswyr gynnig cyflwyno fesul cam pan fydd sawl lleoliad ynghlwm.

### 2.1.15 Technoleg

Technoleg agnostig yw'r Cynllun ond rhaid i brosiectau fod yn addas i'r dyfodol ac yn gallu cefnogi defnyddio 4G+ gyda hyd oes disgwyliedig digonol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd asedau wedi'u huwchraddio yn parhau i fod yn addas i'w defnyddio tan o leiaf 2036, gan gynnwys trefniadau cynnal a chadw a gweithdrefnau mynediad. Dylai Ymgeiswyr ymgynghori â phartneriaid y diwydiant i sicrhau bod y gwelliannau arfaethedig yn bodloni'r gofynion ar gyfer perthnasedd ac addasrwydd technolegol.

### 2.1.16 Rheoli Cymhorthdal

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal asesiad Rheoli Cymhorthdal ar gyfer y prosiect 4G+ ac mae'n ystyried bod y cymorth a ddarperir drwy'r prosiect ehangach yn gynllun cymhorthdal o fewn ystyr Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Bydd dyfarniadau grant yn cael eu gwneud ar sail dryloyw a chymesur a byddant yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n lleihau afluniad, gan gynnwys gofynion Mynediad Agored ac asesiad gwerth am arian. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i alluogi Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni ei rwymedigaethau rheoli cymhorthdal, gan gynnwys dadansoddiadau costau, tystiolaeth o angen, a chadarnhad bod y grant wedi'i gyfyngu i waith galluogi cymwys.

### 2.1.17 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rhaid i dderbynwyr grant hyrwyddo cydraddoldeb yn weithredol a rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau ar sail ethnigrwydd, anabledd, oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, neu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

### 2.1.18 Diwydrwydd Dyladwy

Mae ymgeiswyr yn destun prosesau diwydrwydd dyladwy ac asesu risg Uchelgais Gogledd Cymru. Gall y gwiriadau hyn gynnwys gwirio hunaniaeth sefydliadol, trefniadau llywodraethu a hunaniaethau unigolion allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am ymgymryd â holl ddiwydrwydd dyladwy perthnasol contractwyr a phartneriaid y diwydiant sy'n ymwneud â'u prosiect.

### 2.1.19 Preifatrwydd a chyfrinachedd

Bydd data personol a gwybodaeth fusnes ymgeiswyr yn cael eu storio'n ddiogel, eu cadw'n gyfrinachol a'u prosesu yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Uchelgais Gogledd Cymru. Gellir rhannu gwybodaeth gyda chyllidwyr, archwilwyr a gwerthuswyr lle bo angen at ddibenion sicrwydd a monitro.

## 2.2 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys

Nid yw'r gweithgareddau a'r costau isod yn gymwys i gael cymorth grant (nid yw’r rhestr yn gynhwysfawr):

- Taliadau i gyflenwyr nad ydynt yn cael eu caffael yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru a rhwymedigaethau caffael yr ymgeisydd.
- Unrhyw weithgaredd a ddechreuodd neu achosodd gost cyn dyddiad dechrau'r prosiect a ddangosir yn y GFA.
- Gwaith cynnal a chadw neu gydymffurfiaeth statudol arferol nad oes ei angen yn uniongyrchol i alluogi defnydd 4G+.
- Costau refeniw fel gorbenion, costau rhedeg, amser staff arferol nad ydynt yn gymwys i gael eu cyfalafu, a gwariant gweithredu parhaus.
- TAW y gellir ei adfer.
- Arian wrth gefn, dibrisiant, taliadau cyllid a llog dyled.
- Unrhyw weithgaredd y mae cyllid cyhoeddus arall wedi'i dderbyn neu ei ddyfarnu ar ei gyfer (oni bai ei fod wedi'i ganiatáu a'i ddatgan yn benodol).

- Unrhyw weithgaredd a allai ddwyn gwarth ar enw da Uchelgais Gogledd Cymru neu unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru.

## 2.3 Y Broses Ymgeisio

### 2.3.1 Trosolwg o'r Broses

Mae'r Cynllun yn gweithredu ar sail dreigl heb ffenestri cyllido sefydlog. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (EOI) yn gyntaf. Os cymeradwyir yr EOI, gwahoddir yr ymgeisydd i gyflwyno cais llawn. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn adolygu EOIs a cheisiadau yn rheolaidd a gall flaenoriaethu cynigion yn ôl anghenion strategol, parodrwydd a chyllideb sydd ar gael.

## 2.4 Cyfnod Datganiad o Ddiddordeb (EOI)

### 2.4.1 Safleoedd targed

Gwahoddir EOIs hefyd ar gyfer asedau a nodwyd gan ymgeiswyr lle gall gwaith galluogi gyflawni amcanion y Cynllun. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw rhestr o flaenoriaethau o safleoedd a fydd ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus eu defnyddio ac i helpu i'w hysbysu ac archwilio unrhyw safleoedd posibl. Mae'r rhestr flaenoriaethu hon yn cael ei llywio gan dystiolaeth o anghenion gwasanaeth (*coverage*) a pherfformiad ac yn amodol ar newid drwy gydol y prosiect.

### 2.4.2 Cyflwyno EOI

Mae EOIs yn cael eu cyflwyno drwy Find a Grant. Gellir cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb (EOIs) ar unrhyw adeg hyd at fis Mehefin 2029, gan nodi'r amserlenni yn adran 2.1.14. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth i ganiatáu i Uchelgais Gogledd Cymru asesu addasrwydd strategol a pharodrwydd, gan gynnwys: manylion asedau; cwmpas dangosol; cost ddangosol; amserlen gyflenwi; ymgysylltu â gweithredwyr hyd yn hyn; a dull Mynediad Agored arfaethedig. Cysylltwch â digidol@uchelgaisgogledd.cymru / digital@ambitionnorth.wales os hoffech drafod eich EOI cyn cyflwyno.

### 2.4.3 Asesu EOI

Bydd EOIs yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r meini prawf yn Adran 2.1. Gall Uchelgais Gogledd Cymru ofyn am eglurhad neu wybodaeth ategol, gan gynnwys ffotograffau, lluniadau, allbynnau arolwg neu dystiolaeth perchnogaeth.

### 2.4.4 Penderfyniad EOI

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu EOI. Bydd EOIs cymeradwy yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Efallai y bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cynnig adborth a gallant gyflwyno EOI diwygiedig.

## 2.5 Cyfnod Ymgeisio

### 2.5.1 Cyflwyno cais

Dim ond sefydliadau sydd ag EOIs cymeradwy fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Cyflwynir ceisiadau drwy Porth “Find a Grant” Llywodraeth DU. Rhaid i'r cais fod yn gyson â'r EOI, ond gall gynnig diwygiadau i gwmpas, costau neu ddeilliannau. Dylid esbonio a chyfiawnhau newidiadau sylweddol yn glir.

Rhaid i geisiadau gynnwys (o leiaf):

- Disgrifiad manwl o'r prosiect a chwmpas y gwaith.
- Dadansoddiad manwl o gost yn ôl categorïau gwariant cymwys, gyda dyfynbrisiau/amcangyfrifon ategol.
- Cadarnhad o fuddsoddiad sector preifat sy'n gysylltiedig â'r defnydd arfaethedig o'r ased.
- Cynllun prosiect gyda cherrig milltir a dyddiadau.
- Cynllun Defnyddio (gweler Adran 2.6).
- Cofrestr risg gyda mesurau lliniaru.
- Tystiolaeth o hawliau perchnogaeth/rheoli asedau a mynediad.
- Cynllun caniatâd (cynllunio, gwaith priffyrdd/stryd, ffyrdd-freintiau, cymeradwyaethau landlordiaid fel bo'n berthnasol).
- Dull caffael ac amserlen (llwybr i'r farchnad, dull gwerthuso, dull contract).
- Dull Mynediad Agored a chynllun gweithredu.
- Ymrwymiadau gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd a sut y byddant yn cael eu mesur.

### 2.5.2 Asesu cais

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r meini prawf yn Adran 2.3.1. (anghenraid strategol, parodrwydd a chyllideb sydd ar gael). Gall Uchelgais Gogledd Cymru ofyn am eglurhad neu dystiolaeth ychwanegol, a gall gynnal ymweliadau safle lle bo hynny'n briodol.

### 2.5.3 Penderfyniad ar y cais

Ar ôl asesu, bydd penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau ai peidio yn cael eu gwneud yn unol â chynllun dirprwyo Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Cytundeb Cyllid Grant (GFA). Nid oes proses apelio ffurfiol, ond bydd adborth ar geisiadau aflwyddiannus yn cael ei gynnig.

## 2.6 Cynllunio Defnyddio a Galluogi Safle

Mae angen Cynllun Defnyddio cadarn ar gyfer pob cais. Mae'r Cynllun Defnyddio yn ddogfen asesu craidd a rhaid iddo ddangos y bydd yr uwchraddiadau asedau arfaethedig yn galluogi defnydd 4G+ a gellir eu cyflawni'n ddiogel, yn gydymffurfiol ac yn effeithlon.

Dylai'r Cynllun Defnyddio gynnwys (o leiaf):

- Manylion y gofrestr asedau a'r safle (lleoliad, math o asedau, perchnogaeth/rheolaeth, cyfyngiadau).
- Dyluniad technegol a manyleb (strwythurol, pŵer, *'backhaul'*/cysylltedd, gofod a gofynion mowntio).
- Statws yr arolwg (arolygon wedi'u cwblhau a'r rhai a gynlluniwyd, gan gynnwys strwythurol/trydanol/ffibr/mynediad).
- Caniatâd (cynllunio, priffyrdd/gwaith stryd, cymeradwyaethau landlordiaid, ffyrdd-freintiau).
- Amserlen y rhaglen gyda cherrig milltir allweddol (dylunio, caffael, gosod, comisiynu, trosglwyddo).
- Cynllun caffael (llwybr, amserlen tendr, dull gwerthuso, rheoli contract).
- Cynllun gweithredu Mynediad Agored (sut y bydd mynediad yn cael ei gynnig, ei reoli a'i gyfathrebu).
- Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithredwyr (tystiolaeth o alw a chydlynu).

- Cynllun gweithrediadau a chynnal a chadw hyd at 2036 (cyfrifoldebau, arolygiadau, ymateb atgyweirio, gweithdrefnau mynediad).
- Cynaliadwyedd a dull carbon (deunyddiau, ailddefnyddio, gwastraff, lleihau teithio).

# 3 Proses Dyfarnu ac Ôl-ddyfarnu

## 3.1 Cytundeb Cyllid Grant (GFA)

### 3.1.1 Templed GFA

Mae'r ddogfen GFA ar gael yn Atodiad 4**Error! Reference source not found.**. Dylai ymgeiswyr adolugu'r templed ymlaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn gallu derbyn y telerau ac amodau.

### 3.1.2 Telerau ac Amodau Atodlen 1 y GFA

Mae'r Telerau ac Amodau a nodir yn Atodlen 1 y GFA yn berthnasol i bob grant ac nid ydynt yn agored i'w trafod. Maent yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chaffael, adrodd, archwilio, Mynediad Agored, cydymffurfiaeth rheolaeth cymorthdaliadau a adfer arian (clawback).

### 3.1.3 Canlyniadau a Cherrig Milltir Atodlen 2 y GFA

Bydd canlyniadau a cherig milltir y prosiect yn cael eu nodi yn Atodlen 2, gyda dyddiadau erbyn pryd y mae'n rhaid eu cyflawni a'u tystiolaethu. Gall Uchelgais Gogledd Cymru gadw cyfran o'r grant hyd nes y caiff y canlyniadau eu dilysu. Gall methu â chyflawni'r canlyniadau neu'r cerrig milltir arwain at gadw neu adfer (clawback) rhywfaint neu'r holl grant.

### 3.1.4 Rhagolwg Gwariant Atodlen 3 y GFA

Bydd y rhagolwg gwariant yn cael ei nodi yn Atodlen 3. Bydd y grant sy'n daladwy yn cael ei gapio ar y swm uchaf a bennir yn y GFA. Os bydd cost y prosiect yn fwy na'r rhagolwg, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb yr ymgeisydd grant. Os bydd cost y prosiect yn llai na'r rhagolwg, gall y grant sy'n daladwy gael ei leihau'n gyfrannol er mwyn osgoi gor-ariannu.

## 3.2 Cychwyn a Chyflawni'r Prosiect

### 3.2.1 Cyfarfod Cychwyn y Prosiect (PIM)

Ar ôl i'r GFA gael ei lofnodi, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal Cyfarfod Cychwyn y Prosiect (PIM) gyda'r derbynnydd grant i gadarnhau trefniadau cyflawni, prosesau adrodd a hawlio, risgiau a mesurau lliniaru allweddol, a gweithredu Mynediad Agored.

### 3.2.2 Monitro ac adrodd ar brosiectau

Bydd derbynwyr grant yn adrodd ar gynnydd mewn fformat ac ar ddyddiadau y cytunwyd arnynt yn y PIM. Bydd adrodd fel arfer yn cynnwys cynnydd yn erbyn cerrig milltir, cofrestr risg wedi'i diweddaru, statws caffael, gwariant hyd yma a rhagolwg, ac unrhyw newidiadau i'r Cynllun Defnyddio.

### 3.2.3 Newidiadau i'r prosiect

Rhaid i dderbynwyr grant roi gwybod i Uchelgais Gogledd Cymru yn brydlon am unrhyw newid sylweddol i gwmpas, costau, amserlenni, deilliannau, dull caffael, neu drefniadau Mynediad Agored. Gall newidiadau heb eu cymeradwyo arwain at wariant anghymwys neu hawlio'n ôl. Bydd trefniadau Rheoli Newid ar gyfer y prosiect yn cael eu nodi yn y GFA.

## 3.3 Hawliadau

### 3.3.1 Proses hawlio

Talir grantiau mewn ôl-ddyledion ar ôl gwirio gwariant cymwys a/neu gyflawni carreg filltir. Gall derbynwyr grant gyflwyno hawliadau mewn rhandaliadau fel y nodir yn y GFA. Bydd canllawiau hawliadau a thempledi yn cael eu cyhoeddi ar ôl llofnodi'r GFA. Rhaid cyflwyno ceisiadau grant yn unol â Phroses Hawlio Grant Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru (broses ar gael ar gais).

### 3.3.2 Tystiolaeth hawliadau

Rhaid i hawliadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth, a fydd yn cynnwys (o leiaf):

- Anfonebau a gorchmynion prynu sy'n nodi eitemau cymwys.
- Prawf o anfonebau cyfatebol taliad (e.e., datganiadau banc).
- Cofnodion caffael sy'n dangos cydymffurfiaeth (dogfennau tendr, cofnodion gwerthuso, penderfyniad dyfarnu, contract).
- Tystiolaeth ffotograffig, tystysgrifau cwblhau a/neu ddogfennaeth gomisiynu.
- Gwybodaeth fel yr adeiladwyd a chofnodion asedau wedi'u diweddaru lle bo hynny'n berthnasol.
- Tystiolaeth o gamau gweithredu Mynediad Agored wedi'u cwblhau (cytundeb drafft/gweithredu, cynnig mynediad cyhoeddedig, llwybr cyswllt).
- Adroddiad cynnydd yn cadarnhau cyflawniad carreg filltir a chofrestr risg wedi'i diweddaru.

# 4 Monitro a Gwerthuso

### 4.1 Gwirio perfformiad

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gwirio bod gwaith a ariennir wedi'i gyflawni yn unol â'r fanyleb, y deilliannau a'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt. Gall gwirio gynnwys adolygiad pen desg, arolygiadau safle, a gwiriadau bod trefniadau Mynediad Agored ar waith ac yn weithredol.

### 4.2 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio gwybodaeth fonitro i gefnogi gwelliant parhaus y Cynllun a gall gomisiynu gwerthusiad allanol. Disgwylir i dderbynwyr grant gydweithredu â gweithgareddau gwerthuso, gan gynnwys darparu gwybodaeth am ddefnydd, perfformiad gweithredol, a gwersi a ddysgwyd

# 5 Atodiadau

### Atodiad 1. Dogfennau a dolenni cysylltiedig (dalfannau)

- Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru – Egwyddorion Caffael
- Templed Cytundeb Mynediad Agored – (Ar gael ar gais)

### Atodiad 2. Templed Amlinelliad Cynllun Defnyddio

- Crynodeb gweithredol ac amcanion
- Cofrestr asedau a mapio (rhestr safleoedd, cyfesurynnau, lluniau)
- Cyflwr asedau cyfredol, cyfyngiadau a hawliau perchnogaeth/rheoli
- Datrysiad technegol a manyleb arfaethedig (strwythurol, pŵer, *'backhaul'*, gofod)
- Arolygon a datblygu dyluniad (wedi'i gwblhau a'i gynllunio)
- Strategaeth pŵer (llwyth, mesurydd, uwchraddio, diogelwch)
- Strategaeth cysylltedd/*'backhaul'* (ffibr/dwythellau/ffyrdd-freintiau)
- Gwaith sifil, trefniadau mynediad a methodoleg adeiladu
- Cynllun, priffyrdd a chynllun caniatâd statudol
- Cynllun caffael (llwybr, amserlen, gwerthuso, contractau)
- Rhaglen gyflawni (cerrig milltir, dibyniaethau, llwybr critigol)
- Cofrestr risg a mesurau lliniaru
- Iechyd a diogelwch / dull CDM
- Cynllun gweithredu Mynediad Agored (cynnig, proses, llywodraethu)
- Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithredwyr
- Cynllun rheoli cynaliadwyedd a charbon
- Dogfennaeth gomisiynu, trosglwyddo ac 'fel yr adeiladwyd'
- Cynllun gweithredu a chynnal a chadw hyd at 2036

### Atodiad 3. Geirfa (termau dethol)

4G+: Technolegau rhwydwaith symudol 4G a/neu 5G a seilwaith ategol, gan gynnwys celloedd bach a gofynion *'backhaul'* a phŵer cysylltiedig.

Gwaith gwella asedau: Gwaith cyfalaf a wneir i uwchraddio neu ddisodli ased fel ei fod yn addas i *hostio* offer telathrebu.

MNO: Gweithredwr Rhwydwaith Symudol (EE, VodafoneThree a Virgin Media O2)

Mynediad Agored: Trefniadau mynediad nad ydynt yn unigryw, nad ydynt yn gwahaniaethu sy'n galluogi un neu fwy o weithredwyr neu ddarparwyr seilwaith i ddefnyddio ased.

Host Niwtral: Cwmni sy'n darparu gwasanaethau seilwaith i MNOs ar gyfer defnyddio gwasanaeth (*coverage*) rhwydwaith

EOI: Datganiad o Ddiddordeb – y cyflwyniad cychwynnol a ddefnyddir i asesu addasrwydd strategol a pharodrwydd cyn gwahodd cais llawn.

GFA: Cytundeb Cyllid Grant – y contract rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'r derbynnydd grant sy'n nodi rhwymedigaethau, cerrig milltir a thelerau cyllido.

Galluogi effaith: Y graddau y mae gwelliant asedau yn uniongyrchol yn galluogi neu'n cyflymu'r defnydd o 4G+, gan gynnwys trwy gael gwared ar rwystrau sy'n ymwneud â strwythur, pŵer, mynediad neu gysylltedd.

Atodiad 4. Cytundeb Cyllid Grant

[MAE'R CYTUNDEB HWN WEDI'I GYNLLUNIO I'W DDEFNYDDIO AR GYFER DERBYNWYR GRANT SECTOR CYHOEDDUS YN UNIG]

[Enw a Chyfeiriad y Derbynnydd Grant]

[DYDDIAD]

Annwyl [Enw Cyswllt y Derbynnydd Grant]

UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU – CYNLLUN GRANT GWELLA ASEDAU SECTOR CYHOEDDUS 4G+ [Enw'r Prosiect]

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n cyflawni Cronfa Twf Gogledd Cymru fel Uchelgais Gogledd Cymru ("UGC") wedi cytuno i gefnogi [Enw'r Prosiect] drwy ddarparu cyllid o'i Gynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G+ i [Dderbynnydd y Grant], o hyd at [Uchafswm] ar y telerau a'r amodau a nodir isod (y "Grant").

Bydd y llythyr hwn a'r atodlenni atodol, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau safonol a nodir yn Atodlen 1, yn ffurfio'r cytundeb rhwng y [Derbynnydd Grant] ac UGC (y "Cytundeb").

Mae'r wybodaeth allweddol ar gyfer y Grant arfaethedig wedi'i nodi yn y tabl isod. Rydym hefyd wedi rhestru termau diffiniedig sy'n benodol i'ch Cytundeb yn y golofn chwith. Pan fyddwn yn defnyddio'r diffiniadau hyn yn y Cytundeb hwn, mae ganddynt yr ystyr a roddir iddynt yn y golofn dde.

Yn y Cytundeb hwn, mae "Ni", "Ninnau" ac "Ein" yn cyfeirio at UGC, ac mae "Chi" ac "Eich" yn cyfeirio at y [Derbynnydd Grant].

Mae'r wybodaeth allweddol ar gyfer y Grant arfaethedig fel a ganlyn (a chyfeirir at y diffiniadau hyn trwy gydol y Cytundeb hwn):

| | |
|---|---|
| Uchafswm | [Ni fydd cyfanswm y swm sy'n daladwy i Chi yn fwy na £[ ] |
| Derbynnydd Grant ("Chi") | [Enw'r Derbynnydd Grant a phrif gyfeiriad] |
| Prosiect | [Enw'r Prosiect a nod y Prosiect] |
| Allbynnau a Cherrig Milltir | Gweler Atodlen 2 |
| Dyddiad Dechrau | [Dyddiad Dechrau] |
| Dyddiad Gorffen | Y cynharaf o'r:<br>(a) Dyddiad pan fydd y Cytundeb yn cael ei derfynu yn unol â'i delerau; ac<br>(b) [nodwch y dyddiad y cytunwyd arno] |
| Amodau Arbennig | Yn ogystal â'r Telerau ac Amodau a nodir yn Atodlen 1, mae'r Amodau Arbennig canlynol yn berthnasol:<br>[ ] |

<table>
<tr><td></td><td colspan="6">[Rhowch 'Dim' os nad oes amodau prosiect-benodol i'w cynnwys]</td></tr>
<tr><td rowspan="9">Proffil Taliadau</td><td colspan="6">Bydd y Grant yn cael ei dalu mewn ôl-ddyledion a gellir ei hawlio mewn rhandaliadau yn seiliedig ar Wariant Cymwys a gafwyd a cherrig milltir perfformiad a gyflawnwyd, fel a ganlyn:</td></tr>
<tr><td colspan="6">[Opsiwn 1, lle mae'r Grant i'w dalu mewn rhandaliadau]</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sbardun neu Gyfnod Taliad (e.e. Chwarter 1)</td><td colspan="2">Amcangyfrif y Swm</td><td colspan="2">Dyddiad a amcangyfrifir</td></tr>
<tr><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td></tr>
<tr><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td></tr>
<tr><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td></tr>
<tr><td colspan="6">[Opsiwn 2, lle mae'r Grant i'w dalu fel un swm penodol]</td></tr>
<tr><td colspan="3">Uchafswm</td><td colspan="3">Dyddiad a amcangyfrifir</td></tr>
<tr><td colspan="3">[ ]</td><td colspan="3">[ ]</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwaredu</td><td colspan="6">yn golygu [dyddiad], sef y dyddiad cyn na fedrwch chi waredu'r Asedau a Ariennir</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Manylion Hysbysiad</td><td colspan="6">I Ni, drwy'r post i [enw/teitl y swydd] yn [cyfeiriad post ] neu drwy e-bost at [cyfeiriad e-bost] neu i unrhyw gyfeiriad arall a allai gael ei hysbysu o bryd i'w gilydd gennym Ni; ac</td></tr>
<tr><td colspan="6">I Chi drwy'r post i [enw/teitl y swydd] yn [cyfeiriad post] neu drwy e-bost i [cyfeiriad e-bost] neu i unrhyw gyfeiriad arall a allai gael ei hysbysu o bryd i'w gilydd gennych Chi; a</td></tr>
<tr><td>Uwch Swyddogion Anghydfod</td><td colspan="6">Mewn perthynas â Ni, Cyfarwyddwr Portffolio UGC; ac<br><br>Mewn perthynas â Chi, y [Cadeirydd NEU Brif Weithredwr y Derbynnydd Grant]</td></tr>
</table>

Os hoffech dderbyn y cynnig hwn o gyllid ar y telerau a nodir yn y Cytundeb hwn, llofnodwch isod a dychwelwch gopi o'r llythyr at [Swyddog/cyfeiriad Uchelgais Gogledd Cymru]

Yr eiddoch yn gywir

[SWYDDOG UGC]

Dros ac ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU

_____________________________________________________________________________

Ar Gopi:

Rydym drwy hyn yn derbyn cynnig UGC o'r Grant a thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn.

Llofnodwyd ar ________y dydd hwn o ________________[blwyddyn]

| | |
|---|---|
| | __________________________ |
| Llofnodwyd gan (enw mewn print bras) | Llofnod |

Wedi'i awdurdodi i lofnodi ar ran

[Derbynnydd y Grant]

ATODLEN 1

## TELERAU AC AMODAU

Mae'r Grant a wneir gan UGC yn unol á'r telerau a nodir yn y Cytundeb hwn gan gynnwys mewn unrhyw atodlenni ac atodiadau sydd ynghlwm.

## 1 DIFFINIADAU A DEHONGLIAD

1.1 Bydd gan y termau canlynol yr ystyron a ganlyn pan gânt eu defnyddio yn y Cytundeb hwn (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall):

| | |
|---|---|
| **"Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G+"** | - yn golygu Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G+ sy'n rhan o Brosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ a ariennir o Gynllun Twf y rhanbarth ac a ddarperir gan Uchelgais Gogledd Cymru |
| "**Egwyddorion Caffael UGC**" | - yn golygu'r egwyddorion caffael a gyhoeddir gennym Ni o bryd i'w gilydd sy'n nodi'r gofynion sy'n berthnasol i gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau mewn cysylltiad â phrosiectau a ariennir gennym Ni |
| **"Cais"** | - yn golygu'r wybodaeth a ddarperir gennych Chi fel rhan o'r broses o wneud cais am y Grant a'i gael, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i unrhyw Fynegiant o Ddiddordeb ac/neu unrhyw Ffurflen Gais (fel y bo'n berthnasol) |
| **"Ffurflen Gais"** | - yn golygu'r ffurflen gais a gyflwynwyd gennych Chi mewn perthynas â'r Grant |
| "**Deddf Llwgrwobrwyo**" | - yn golygu Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan adran berthnasol y llywodraeth ynglŷn â'r ddeddfwriaeth |
| **"Diwrnod Busnes"** | - yn golygu diwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn neu ddydd Sul) y mae banciau fel arfer yn agored yn Llundain |
| **"Llythyr Ymrwymiad i Ddefnyddio"** | - yn golygu llythyr ysgrifenedig neu gadarnhad ysgrifenedig arall gan weithredwr rhwydwaith neu westeiwr niwtral sy'n cadarnhau ei ymrwymiad i ddarparu offer telathrebu ar yr Asedau a Ariennir, yn amodol ar gymeradwyaeth cyllid a gwiriadau safonol |
| **"Cynllun Defnyddio"** | - yn golygu y cynllun defnyddio a baratowyd gennych Chi ac a gymeradwywyd gennym Ni wedi'i baratoi yn unol â'r templed Amlinelliad o'r Cynllun Defnyddio a nodir yn Atodiad 2 o Ganllawiau Cais Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G+ (fel y'u diweddarir o bryd i'w gilydd), ac fel y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd gyda Ein cytundeb ysgrifenedig |
| **"Costau'n Gor-redeg"** | - yn golygu unrhyw gostau'r Prosiect sy'n fwy na'r Uchafswm agregedig |

| | |
|---|---|
| **"Deddfwriaeth Diogelu Data"** | - yn golygu yr holl Ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n ymwneud â'r defnydd o ddata personol, gan gynnwys, heb gyfyngiad (i) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data sydd o bryd i'w gilydd mewn grym yn y DU gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol, yn ogystal â (ii) y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) ac unrhyw reoliad arall yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol sy'n ymwneud â diogelu data a phreifatrwydd (cyhyd ag, ac i'r graddau, y mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfreithiol weithredol yn y DU) ac unrhyw ganllawiau ffurfiol neu Godau Ymddygiad a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth (neu awdurdod cymwys arall) ym mhob achos fel y cânt eu diwygio, eu disodli neu eu hamnewid o bryd i'w gilydd |
| **"Gwariant Cymwys"** | - yn golygu gwariant a achoswyd yn briodol ac o reidrwydd gennych Chi wrth gyflawni'r Prosiect ar eitemau cost fel y nodir yn y Rhagolwg Gwariant, ac nad yw'n Wariant Anghymwys |
| **"Mynegiant o Diddordeb"** | - yn golygu mynegiant o ddiddordeb a gyflwynwyd gennych Chi mewn perthynas â'r Grant |
| **"Rhagolwg Gwariant"** | - yn golygu y rhagolwg gwariant sydd ynghlwm yn Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd neu ei diweddaru yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd |
| **"Proses Hawlio Grant Ariannol"** | - yn golygu Proses Hawlio Grant Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru fel y'i cyhoeddwyd a'i diweddaru gennym o bryd i'w gilydd, sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau Grant a'r telerau talu perthnasol |
| **"Asedau a Ariennir"** | - yn golygu unrhyw asedau sydd wedi'u hariannu neu wedi'u hariannu'n rhannol gan y Grant |
| **"Gwaith a Ariennir"** | - yn golygu'r gwaith sydd i'w wneud mewn cysylltiad â'r Asedau a Ariennir ac a ariennir neu ei ariannu'n rhannol gan y Grant, fel y disgrifir yn fwy penodol yn y Cynllun Defnyddio a'r Rhagolwg Gwariant |
| **"Gwariant Anghymwys"** | - yn golygu unrhyw wariant a achoswyd ar gostau a nodir fel costau anghymwys yng Nghanllawiau Cais Cynllun Grant Gwella Asedau’r Sector Cyhoeddus 4G+ (fel y'u diweddarir o bryd i'w gilydd) neu nad ydynt wedi'u nodi yn y Rhagolwg Gwariant |
| **"Ansolfedd"** | - yn golygu nad ydych Chi yn gallu talu Eich dyledion fel y maent yn ddyledus neu eich bod yn fethdalwr (o fewn ystyr adran 123(1) o Ddeddf Ansolfedd 1986 yn achos cwmni, neu adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986 yn achos unigolyn) neu rydych Chi yn ymrwymo i unrhyw drefniant gyda chredydwyr, neu ddiddymwr, ymddiriedolwr mewn methdaliad, derbynnydd, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol neu debyg yn cael ei benodi, neu feddiant neu orfodaeth neu unrhyw broses debyg arall yn cael ei gymryd yn eich erbyn Chi neu unrhyw un o'ch asedau Chi a bydd Ansolfedd yn cael ei ddehongli yn unol â hynny |

| | |
|---|---|
| **"Deddfwriaeth"** | - yn golygu unrhyw Ddeddf Seneddol berthnasol, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978, arfer yr uchelfraint frenhinol, cyfraith yr UE a gadwyd o fewn ystyr Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, offerynnau statudol, polisi neu ofyniad rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, neu ddyfarniad llys cyfraith perthnasol |
| **"Mynediad Agored"** | - yn golygu trefniadau mynediad nad ydynt yn unigryw, nad ydynt yn gwahaniaethu a sy'n galluogi un neu fwy o weithredwyr telathrebu neu ddarparwyr seilwaith i ddefnyddio'r Asedau a Ariennir ar gyfer defnyddio offer telathrebu |
| **"Cytundeb Mynediad Agored"** | - yn golygu cytundeb ysgrifenedig (neu drefniant mynediad diwahaniaethol cyfatebol) rhyngoch chi ac un neu fwy o weithredwyr telathrebu neu ddarparwyr seilwaith sy'n llywodraethu'r telerau y darperir Mynediad Agored i'r Asedau a Ariennir arnynt |
| **"Cyllid Arall UGC"** | - yn golygu unrhyw gyllid arall oddi wrthym Ni i Chi at ddibenion y Prosiect |

**"Gweithred Waharddedig"** - yn golygu

1 cynnig, rhoi neu gytuno i roi i Ni neu unrhyw was i Ni unrhyw anrheg neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am:

a) wneud neu beidio â gwneud (neu am fod wedi gwneud neu beidio â gwneud) unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni; neu

b) ddangos neu beidio â dangos ffafr neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni;

ymrwymo i'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni lle mae comisiwn wedi'i dalu neu y cytunwyd ei dalu gennych Chi neu ar eich rhan Chi, neu hyd y gwyddoch Chi, oni bai cyn ymrwyo i'r contract perthnasol bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gontract o'r fath ar gyfer ei dalu wedi'u datgelu'n ysgrifenedig i Ni;

cyflawni unrhyw drosedd:

a) dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo;

b) o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau sydd a wnelont â gweithredoedd twyllodrus; neu

c) yn y gyfraith gyffredin yng nghyswllt gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni; neu

twyllo neu geisio twyllo neu gynllwynio i'n twyllo Ni

**"Awdurdod Sancsiynau"** - yn golygu Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, Trysorlys Ei Fawrhydi (gan gynnwys y Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol), Swyddfa Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, Swyddfa Rheoli Asedau Tramor Adran Trysorlys yr Unol Daleithiau, Adran Gwladwriaeth yr Unol Daleithiau, ac unrhyw sefydliad, asiantaeth, adran neu awdurdod llywodraethol, barnwrol neu reoleiddiol arall sy'n gweinyddu, gweithredu neu orfodi Deddfau Sancsiynau o bryd i'w gilydd

| | |
|---|---|
| **"Deddfau Sancsiynau"** | a) - yn golygu unrhyw sancsiynau economaidd, ariannol, masnach neu sancsiynau eraill, cyfreithiau, rheoliadau, mesurau cyfyngol, embargos, gorchmynion neu ofynion a ddeddfwyd, a weinyddir, a osodir neu a orfodir o bryd i'w gilydd gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau, gan gynnwys dan Ddeddf Sancsiynau a Gwrth-wyngalchu Arian 2018 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan hynny |
| **"Person Sancsiynol"** | - yn golygu unrhyw berson (gan gynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, sefydliad, llywodraeth neu endid arall neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran unrhyw un o'r uchod):<br><br>b) sy'n cael ei restru ar, neu sy'n eiddo neu'n cael ei reoli yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan berson a restrir ar unrhyw restr o bersonau dynodedig a gynhelir gan Awdurdod Sancsiynau;<br><br>c) sydd wedi'i leoli yn, wedi'i ymgorffori o dan gyfreithiau llywodraeth unrhyw wlad neu diriogaeth sy'n destun Deddfau Sancsiynau cynhwysfawr ledled y wlad neu diriogaeth; neu<br><br>y mae delio â nhw fel arall wedi'i wahardd neu ei gyfyngu o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol |
| **"SCA 22"** | - yn golygu Deddf Rheoli Cymorthdaliadau (SCA) 2022; |
| **"Cymhorthdal"** | Caiff ei ddiffinio yn adran 2(1) o'r SCA 22 |
| **"Adroddiad Gwerthuso Cryno"** | - yn golygu, mewn perthynas ag unrhyw gontract a ddyfarnwyd mewn cysylltiad â'r Prosiect y mae'n rhaid ei roi allan i dendr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Derbynnydd Grant, adroddiad ysgrifenedig a baratowyd gennych chi a'i gyflwyno i Ni sy'n cynnwys: (a) disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gaffaelwyd; (b) crynodeb o'r broses gaffael a ddilynwyd, gan gynnwys camau allweddol a phwyntiau penderfynu; (c) crynodeb o'r meini prawf gwerthuso a gymhwyswyd a chanlyniadau'r asesiad; a (d) cyfiawnhad am y cyflenwr neu'r contractwr a argymhellir yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthuso |
| **"Gofyniad Cystadleuaeth y DU"** | - yn golygu SCA 22 a/neu ddeddfwriaeth a/neu reoliadau a/neu ganllawiau eraill a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a/neu a gymeradwywyd gan Senedd San Steffan sydd mewn grym ac/neu sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr sy'n rheoleiddio Cymhorthdal |
| **"Cymhorthdal Anghyfreithlon"**” | - yn golygu Cymhorthdal sydd wedi'i roi, neu o bryd i'w gilydd sydd, yn groes i Ofyniad Cystadleuaeth y DU; |

## 2 TALU A DEFNYDDIO'R GRANT

2.1 Rydym wedi dyfarnu'r Grant i Chi at ddibenion y Prosiect fel y nodir yn Eich Cais.

Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant ar gyfer cyflawni'r Prosiect yn unig ac yn unol â'r telerau ac amodau a nodir yn y Cytundeb hwn.

2.3 Rhaid i chi beidio â defnyddio'r Grant at unrhyw ddiben arall heb Ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw.

2.4 Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant yn unol â'r Rhagolwg Gwariant.

2.5 Byddwn yn talu'r Grant fel y manylir yn y Proffil Talu, yn amodol ar i'r arian angenrheidiol fod ar gael i Ni pan fydd y taliad yn ddyledus. Rydych yn cytuno ac yn derbyn mai dim ond i'r graddau y mae gennym Ni arian ar gael y gellir gwneud taliadau'r Grant.

2.6 Ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad o Grant i Chi nes eich bod wedi darparu Llythyr Ymrwymiad Defnyddio i Ni ar ffurf sy'n foddhaol i ni.

2.7 Rhaid cyflwyno pob hawliad am daliadau o'r Grant yn unol â'r Broses Hawlio Grant Ariannol.

2.8 Byddwch yn cyflawni'r Prosiect yn unol â'r Cynllun Defnyddio.

2.9 Byddwch yn sicrhau bod yr holl Asedau a Ariennir ar gael i'w defnyddio gan weithredwyr telathrebu a/neu ddarparwyr seilwaith ar sail Mynediad Agored nad yw'n unigryw. Byddwch naill ai yn rhoi Cytundebau Mynediad Agored ar waith ar ddyddiad y Cytundeb hwn neu byddwch yn ymrwymo i Gytundebau Mynediad Agored o'r fath cyn dyddiad taliad cyntaf y Grant.

2.10 Pan fo cost y Prosiect yn fwy na'r Uchafswm, rydych yn derbyn bod unrhyw gostau ychwanegol o'r fath (**y "Costau'n gor-redeg**") yn gyfrifoldeb arnoch Chi ac nad oes gennym Ni unrhyw rwymedigaeth i dalu unrhyw swm tuag at Gostau'n Gor-redeg.

2.11 Pan fo cost y Prosiect yn llai na'r Rhagolwg Gwariant, bydd swm y Grant sy'n daladwy yn gostwng pro rata o'i gymharu â'r gostyngiad mewn gwariant. Ym mhob achos, y Grant sy'n daladwy fydd naill ai'r Uchafswm neu'r gyfran gyfatebol o'r Gwariant Cymwys a achoswyd, pa un bynnag yw'r lleiaf.

2.12 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall o'r Cytundeb hwn, gall y Grant ariannu hyd at 100% o gyfanswm y Gwariant Cymwys a achoswyd mewn cysylltiad â'r Prosiect ac ni chaiff ei gymhwyso i unrhyw Wariant Anghymwys.

2.13 Bydd y Grant yn cael ei dalu i gyfrif banc yn eich enw Chi a rhaid iddo fod yn gyfrif banc busnes arferol. Rhaid i bob siec o'r cyfrif banc gael ei llofnodi gan o leiaf ddau gynrychiolydd unigol.

2.14 Rhaid i chi ad-dalu'n brydlon i Ni unrhyw arian a dalwyd yn anghywir i Chi boed o ganlyniad i'n gwall gweinyddol Ni neu fel arall.

2.15 Ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad o'r Grant ar ôl y Dyddiad Gorffen.

2.16 Er gwaethaf y Proffil Talu, bydd gennym hawl i gadw swm sy'n hafal i 5% o'r Uchafswm hyd nes bydd y deilliannau a nodir yn Atodlen 2 (*Allbynnau a Cherrig Milltir*) wedi cael eu gwirio gennym Ni fel ein bod yn rhesymol fodlon.

2.17 Os bydd unrhyw ran o'r Grant yn parhau heb ei wario ar y Dyddiad Gorffen, rhaid i chi sicrhau bod unrhyw arian sydd heb ei wario (os hawliwyd o'r blaen) yn cael ei ddychwelyd i ni.

2.18 Rhaid i'r Prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr 2030 fan bellaf. Rhaid cyflawni'r holl Allbynnau erbyn 31 Mawrth 2036 fan bellaf.

3. **CYFRIFEG**

3.1 Bydd y Grant yn cael ei gyfrif ar wahân yn Eich cyfrifon yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol ac ni chaiff ei gynnwys o dan gronfeydd cyffredinol. Pan fo eich fframwaith cyfrifeg cymwys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grant gael ei ddangos fel cronfa gyfyngedig, bydd yn cael ei ddynodi felly.

3.2 Rhaid i chi gadw cyfrifon a chofnodion ar wahân, yn gywir a chyfredol, i ddangos eich bod wedi derbyn a gwario'r Grant.

3.3 Rhaid i chi gadw'r holl anfonebau, derbynebau a chyfrifon ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ymwneud â gwariant y Grant am gyfnod o leiaf chwe blynedd ar ôl derbyn unrhyw arian Grant y maent yn ymwneud â hwy. Bydd gennym yr hawl i adolygu, ar Ein cais rhesymol, Eich cyfrifon a'ch cofnodion sy'n ymwneud â gwariant y Grant a bydd gennym Ni yr hawl i gymryd copïau o'r cyfrifon a'r cofnodion hynny.

4. **ADRODD A CHAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH**

4.1 Byddwch yn darparu adroddiad ariannol ac adroddiad gweithredol i Ni ar eich defnydd Chi o'r Grant a chyflawni'r Prosiect bob chwarter ac yn y fformatau hynny yr ydym yn rhesymol eu hangen.

4.2 Ar gais, byddwch yn rhoi rhagor o wybodaeth, esboniadau a dogfennau i Ni fel y byddwn yn rhesymol eu hangen er mwyn i Ni sefydlu bod y Grant wedi'i ddefnyddio'n briodol yn unol â'r Cytundeb hwn. Byddwch yn caniatáu i Ni gael mynediad i'ch eiddo a/neu staff a/neu wirfoddolwyr ar Ein cais rhesymol at ddibenion monitro'r defnydd o'r Grant a chyflawni'r Prosiect a'ch perfformiad Chi o'ch rhwymedigaethau Chi dan y Cytundeb hwn.

4.3 Byddwch yn cydymffurfio ag Egwyddorion Caffael UGC mewn perthynas â'r holl gaffael a wneir mewn cysylltiad â'r Prosiect. Ar gyfer unrhyw gontract sydd â gwerth o dros £50,000 a wnaed mewn cysylltiad â'r Prosiect, byddwch yn paratoi ac yn cyflwyno Adroddiad Gwerthuso Cryno i Ni ar ffurf y gallwn fod ei hangen yn rhesymol, a byddwch Chi yn cadw'r holl gofnodion caffael am y cyfnod a bennir yng Nghymal 3.3 at ddibenion archwilio ac adolygu cydymffurfiaeth.

4.4 Bydd gennym hawl i wirio bod y Gwaith a Ariennir wedi'i gyflawni yn unol â'r fanyleb, y canlyniadau a'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt. Gall dilysu o'r fath gael ei wneud gennym Ni neu gan drydydd parti annibynnol a benodir gennym yn ôl Ein disgresiwn. Byddwch yn darparu pob cymorth a mynediad rhesymol fel y gallai fod ei angen arnom Ni neu Ein trydydd parti penodedig at ddibenion gwirio o'r fath ac unrhyw werthusiad allanol o'r Prosiect.

4.5 **CYFATHREBU**

Bydd unrhyw hysbysiad sy'n gofyn am neu gyfathrebiad i'w roi neu ei gyflwyno o dan y Cytundeb Grant hwn yn cael ei roi neu ei gyflwyno yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy bost electronig) i'r Manylion Hysbysiad.

4.6 **Cyflawni**

Ystyrir bod unrhyw hysbysiad, hawliad neu gyfathrebu o'r fath wedi'i roi neu ei wneud yn briodol fel a ganlyn:-

4.6.1 Os anfonir trwy ddosbarthiad personol, ar ôl ei gyflwyno i gyfeiriad y parti perthnasol;

4.6.2 Os anfonir drwy bost dosbarth cyntaf, dau Ddiwrnod Busnes ar ôl y dyddiad postio; ac

4.6.3 Os anfonir trwy e-bost, ar adeg y trosglwyddiad,

ar yr amod, os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath fel arall yn cael ei ystyried yn cael ei roi neu ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol, ystyrir bod cyfathrebu o'r fath wedi'i roi neu ei wneud ar ddechrau'r Diwrnod Busnes nesaf.

5 **GWARANTAU A SYLWADAU**

Wrth dderbyn y cynnig hwn (a phob tro y byddwch Chi yn derbyn taliad o'r Grant) Rydych Chi yn gwarantu ac yn cadarnhau i Ni:

5.1 Eich bod yn gorff gyda chyfansoddiad cyfreithiol ac mae gennych y gallu a'r awdurdod llawn a phob caniatâd ac arbenigedd angenrheidiol i ymrwymo i a chyflawni Eich rhwymedigaethau o dan delerau'r Cytundeb hwn ac rydych Chi'n cydnabod eu bod yn rhwymedigaethau dilys, cyfreithiol a rhwymol i Chi ac yn orfodadwy yn eich erbyn Chi;

5.2 Mae'r holl wybodaeth, dogfennau a chyfrifon a ddarperir gennych Chi neu ar Eich rhan, o bryd i'w gilydd yn wir, yn ddilys ac yn gywir;

5.3 Nid ydych yn torri unrhyw gyfraith neu reoliad, cytundeb neu rwymedigaeth sy'n effeithio ar eich gallu i ymrwymo i'r Cytundeb hwn;

5.4 Rydych yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth berthnasol a byddwch bob amser yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth berthnasol, gan ein hysbysu ar unwaith am unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth ddeddfwriaeth, codau neu argymhellion o'r fath;

5.5 Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw ffaith neu amgylchiad a allai effeithio ar gwblhau'r Prosiect yn llwyddiannus;

5.6 Byddwch yn sicrhau bod pob caniatâd a thrwydded angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu cynnal;

5.7 Mae gennych a byddwch yn cadw systemau ar waith i ddelio ag atal twyll a / neu gamweithrediad gweinyddol;

5.8 Byddwch yn gweithredu a chynnal Mynediad Agored mewn perthynas â'r Asedau a Ariennir tan yr hwyrach o'r Dyddiad Gwaredu a 31 Mawrth 2036 (y "**Cyfnod Mynediad Agored**") a byddwch yn defnyddio ymdrechion rhesymol i ymrwymo a chynnal Cytundebau Mynediad Agored (neu drefniadau mynediad cyfatebol nad ydynt yn gwahaniaethu) gyda gweithredwyr telathrebu ar sail nad yw'n unigryw trwy gydol y Cyfnod Mynediad Agored;

5.9 Ni fydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn cael eu cyflenwi gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydweithiau telathrebu'r DU;

5.10 Ni fydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn dod neu'n tarddu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o Ffederasiwn Rwsia neu Weriniaeth Belarws, ac ni fyddwch yn defnyddio unrhyw ran o'r Grant i gaffael neu ariannu caffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau o'r fath;

5.11 Nid ydych Chi wedi cyflawni, ac ni fyddwch Chi yn cyflawni, unrhyw Weithred Waharddedig;

5.12 Nid ydych Chi nac unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect, yn Berson Sancsiynol;

5.13 Nid ydych Chi nac unrhyw un o'ch swyddogion, asiantau neu isgontractwyr Chi, nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect, wedi cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad a fyddai, neu a allai, arwain at gael ei ddynodi neu ei restru ar unrhyw Restr Sancsiynau;

5.14 Nid yw'r Grant wedi cael ei ddefnyddio, ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol:

5.14.1 er budd unrhyw Berson Sancsiynol, neu i sicrhau bod arian ar gael iddynt;

5.14.2 i ariannu, hwyluso, cefnogi neu ariannu unrhyw weithgaredd, trafodiad neu drefniant a fyddai'n cael ei wahardd o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys neu a fyddai'n achosi i Ni neu Chi fod yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys; neu

5.14.3 mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n ein cyflwyno Ni, Chi, neu unrhyw un o'u personél priodol i unrhyw sancsiynau, cosb, atebolrwydd neu gamau rheoleiddio andwyol o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys;

5.15 Nid ydych yn torri, ac nid ydych yn destun unrhyw archwiliad, ymchwiliad, achos neu gamau gorfodi gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau mewn perthynas ag unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; a

5.16 Bod gennych bolisïau, gweithdrefnau, systemau a rheolaethau priodol ac effeithiol yn eu lle ac wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol mewn cysylltiad â defnyddio'r Grant a chyflawni'r Prosiect; a

5.17 Byddwch yn ein hysbysu Ni yn brydlon am unrhyw newid yn eich amgylchiadau Chi a allai effeithio ar gydymffurfiaeth â Gofyniad Cystadleuaeth y DU neu a allai arwain at y Grant yn cynnwys Cymhorthdal Anghyfreithlon;

## 6 GWAREDU

6.2 Rhaid i Chi beidio â chael gwared ar unrhyw Asedau a Ariennir cyn y Dyddiad Gwaredu heb Ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

6.3 Rhaid i'r holl Asedau a Ariennir fod â hyd oes ddisgwyliedig digonol a rhaid iddynt allu gweithredu'n effeithiol tan o leiaf 31 Mawrth 2036. Os oes angen disodli neu uwchraddio unrhyw Ased a Ariennir cyn 31 Mawrth 2036, eich cyfrifoldeb chi fydd y gost gysylltiedig lawn ac ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i gyfrannu at unrhyw gost o'r fath.

## 7 NEWIDIADAU

7.1 Rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os ydych Chi am neu angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Prosiect gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau i unrhyw un o'r Allbynnau, Cerrig Milltir, Dyddiad Dechrau Buddion, Dyddiad Gorffen, Dyddiad Cwblhau Targed, Rhagolwg Gwariant a/neu ariannu'r Prosiect.

7.2 Rhaid i unrhyw newidiadau fod wedi'u cytuno, yn ysgrifenedig, gyda Ni, cyn iddynt ddod yn weithredol. Gellir cyflawni newidiadau o'r fath y cytunwyd arnynt i'r Allbynnau, Cerrig Milltir, y Dyddiad Dechrau, y Dyddiad Gorffen, y Dyddiad Cwblhau Targed a'r Rhagolwg Gwariant drwy gyfnewid gohebiaeth a bernir bod y Cytundeb hwn wedi'i amrywio i ystyried y newidiadau y cytunwyd arnynt gan ohebiaeth o'r fath.

## 8 DEDDFWRIAETH [AC AMGYLCHEDDOL]

8.1 Rhaid i chi gydymffurfio â Ni gan gynorthwyo a chydweithredu â Ni er mwyn i Ni hefyd gydymffurfio gyda'r (ac mae angen i drydydd Partïon sy'n cael budd o'r Grant yma ac unrhyw gontractwyr y gallwch chi eu penodi wneud yr un fath) holl ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Prosiect, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-

8.1.1 Deddfwriaeth cyflogaeth;

8.1.2 rheoliadau ariannol a Deddfwriaeth; a

8.1.3 Deddfwriaeth Diogelu Data.

8.2 Wrth gyflawni'r Prosiect, rhaid i'r Derbynnydd Grant gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel y bo'n berthnasol.

8.3 [Bydd y Derbynnydd Grant yn defnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Prosiect:

8.3.1 yn cyflawni gostyngiad mewn allyriadau ynni gweithredol mewn perthynas â'r Prosiect

8.3.2 yn lleihau'r carbon a ymgorfforwyd mewn perthynas ag asedau cyfalaf y Prosiect

8.3.3 yn cyflawni effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth lle bo'n bosibl]

## 9 DIBENION GWAHARDDEDIG

9.1 Ni chewch ddefnyddio'r Grant, yn llawn nac yn rhannol, ar gyfer:

9.1.1 dibenion plaid wleidyddol;

9.1.2 hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol;

9.1.3 gamblo, pornograffi neu gynnig gwasanaethau rhywiol;

9.1.4 prynu offer cyfalaf ac eithrio fel y nodir yn y Rhagolwg Gwariant;

9.1.5 unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon;

9.1.6 gweithgareddau refeniw;

9.1.7 caffael, creu neu wella asedau yn sylweddol (gan gynnwys unrhyw adeilad, adeiladwaith newydd, tir, estyniadau ac addasiadau i adeiladau presennol neu brynu asedau sefydlog, peiriannau, offer, cerbydau neu beiriannau eraill) sydd â bywyd gwaith disgwyliedig o fwy na blwyddyn, ac eithrio'r Asedau a Ariennir a bennir yn y Rhagolwg Gwariant; neu

9.1.8 unrhyw fath arall o weithgaredd a allai yn ein barn ni ddod â Ni neu Gynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus 4G + i anfri.

10 **SANCSIYNAU**

10.1 Byddwch yn:

10.1.1 cydymffurfio, ac yn sicrhau bod pob un o'ch swyddogion, gweithwyr, asiantau, isgontractwyr a phob trydydd parti y mae unrhyw ran o'r Grant yn cael ei basio, ei roi fel is-grant neu fel arall ei drosglwyddo iddynt, yn cydymffurfio, bob amser â'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol;

10.1.2 peidio â defnyddio neu ddarparu'r Grant (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol), yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:

a) i neu er budd unrhyw Berson Sancsiynol;

b) at unrhyw ddiben a fyddai, neu a fyddai'n debygol o achosi, i Ni neu Chi fod yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; neu

c) mewn unrhyw ffordd a fyddai, neu y byddai'n rhesymol disgwyl i, ein hamlygu Ni i unrhyw sancsiynau, cosb, atebolrwydd neu ganlyniad andwyol arall o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys;

10.1.3 cynnal a gweithredu, a phan fo unrhyw ran o'r Grant yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti, ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti hwnnw weithredu, cynnal a gweithredu, polisïau, gweithdrefnau, systemau a rheolaethau priodol ac effeithiol (sy'n gymesur â natur, graddfa a chymhlethdod y gweithgareddau perthnasol a defnydd o'r Grant) i:

a) atal unrhyw dorri Deddfau Sancsiynau cymwys;

b) adnabod a sgrinio pob gwrthbarti, personél a derbynnydd yn erbyn yr holl restrau perthnasol a gynhelir gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau cyn eu hymgysylltu mewn cysylltiad â'r Prosiect; a

c) sicrhau monitro parhaus o wrthbartïon, personél a derbynwyr trwy gydol y cyfnod y maent yn ymwneud â'r Prosiect;

10.1.4 cynnal, a phan fo unrhyw ran o'r Grant yn cael ei drosglwyddo i drydydd parti, ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti hwnnw gynnal diwydrwydd dyladwy sancsiynau priodol a chymesur ar bob gwrthbarti, derbynyddion, isgontractwyr a phersonau eraill sy'n ymwneud mewn perthynas â'r Grant a'r Prosiect, cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau gyda phersonau o'r fath ac ar sail barhaus ar ôl hynny;

10.1.5 ein hysbysu Ni yn ysgrifenedig ar unwaith ar ôl dod yn ymwybodol bod:

a) Chi, neu unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â Chi mewn perthynas â'r Grant, wedi dod yn, neu honnir ei fod wedi dod neu sydd dan fygythiad o ddod yn Berson Sancsiynol;

b) Eich bod Chi, neu unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â Chi mewn perthynas â'r Grant, wedi torri, neu yr honnir neu amheuir yn rhesymol eu bod wedi torri, unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect;

c) Eich bod wedi derbyn unrhyw ymholiad, cais am wybodaeth, hysbysiad neu alwad gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect; neu

d) unrhyw amgylchiadau sydd wedi codi a allai arwain at dorri'r Cymal hwn mewn unrhyw fodd neu unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect; gan

10.1.6 ddarparu gwybodaeth, dogfennaeth a chymorth yn brydlon i Ni y byddwn o bosib ei angen yn rhesymol o bryd i'w gilydd at ddibenion:

a) monitro a gwirio Eich cydymffurfiaeth â'r Cymal hwn a gyda'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; ac

b) ein galluogi Ni i fodloni unrhyw un o'n rhwymedigaethau Ni ein hunain o dan Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect.

## 11 DIFFYG

11.1 Bydd yn Ddigwyddiad o Ddiffyg os

11.1.1 Byddwch Chi'n methu â chyflawni unrhyw Allbwn neu Garreg Filltir heb Ein caniatâd ysgrifenedig penodol;

11.1.2 Rydych yn torri unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb yn sylweddol (ac yn methu â gwella toriad o'r fath o fewn 14 diwrnod o gais ysgrifenedig gennym yn gofyn i chi wneud hynny);

11.1.3 Byddwch Chi'n defnyddio'r Grant ac eithrio i'r diben y cafodd ei ddyfarnu, heb Ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

11.1.4 Byddwch chi'n ymgymryd â gweithgareddau sydd yn Ein barn resymol yn debygol o ddod ag enw da'r Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G + neu Ni i anfri;

11.1.5 Byddwch Chi'n darparu unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol gamarweiniol neu anghywir i Ni;

11.1.6 Byddwch Chi'n rhoi'r gorau i weithredu am unrhyw reswm, neu y byddwch Chi'n pasio cynnig (neu unrhyw lys awdurdodaeth gymwys yn gwneud

gorchymyn) Eich bod yn cael Eich dirwyn i ben neu Eich diddymu (ac eithrio er dibenion ail-luniad neu gyfuniad di-ddyled a bona fide);

11.1.7 Byddwch Chi'n cyflawni neu wedi cyflawni Gweithred Waharddedig;

11.1.8 bod Cymhorthdal Anghyfreithlon (yn yr achos hwnnw bydd unrhyw Grant y mae'n ofynnol ei ad-dalu yn peri llog ar y gyfradd honno sy'n ofynnol dan neu yn rhinwedd Gofynion Cystadleuaeth y DU sy'n berthnasol i Gymhorthdal o ddyddiad Ein hysbysiad sy'n gofyn am ad-dalu hyd at ddyddiad yr ad-daliad (cyn ac ar ôl dyfarniad) neu unrhyw gyfnod arall a allai fod yn ofynnol o dan neu yn rhinwedd Gofynion Cystadleuaeth y DU);

11.1.9 Rydych wedi methu â darparu Llythyr Ymrwymiad Defnyddio i Ni ar ffurf foddhaol i Ni cyn dyddiad amcangyfrifedig taliad cyntaf y Grant, neu mae'r ymrwymiad defnyddio wedi hynny yn dod i ben neu'n cael ei dynnu'n ôl;

11.1.10 Eich bod wedi methu â sicrhau arian a ddynodwyd i dalu am unrhyw Or-rediadau Costau ac yn Ein barn resymol rydych Chi'n annhebygol o sicrhau arian o'r fath;

11.1.11 bydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn cael eu cyflenwi gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydwaith telathrebu'r DU;

11.1.12 mae unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn dod neu'n tarddu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o Ffederasiwn Rwsia neu Weriniaeth Belarws;

11.1.13 Rydych yn methu â gweithredu neu gynnal Mynediad Agored mewn perthynas â'r Asedau a Ariennir neu rydych yn torri telerau unrhyw Gytundeb Mynediad Agored ac yn methu â gwella toriad o'r fath o fewn cyfnod rhesymol a bennir gennym Ni yn ysgrifenedig;

11.1.14 Rydym yn credu (gan weithredu'n rhesymol) na ellir neu ei bod yn annhebygol y bydd y Prosiect yn cael ei gwblhau fel y nodir yn y Cais neu fel y cytunwyd fel arall gyda Chi; neu

11.1.15 Rydych yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys neu rydych Chi neu unrhyw un o'ch swyddogion, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr Chi yn dod yn Berson Sancsiynol.

11.2 Pan fo Digwyddiad o Ddiffyg wedi bod, gallwn Ni:

11.2.1 derfynu'r Cytundeb hwn a phan fydd y Cytundeb yn cael ei derfynu, ni fydd unrhyw daliadau pellach o'r Grant yn cael eu gwneud gennym Ni; ac/neu

11.2.2 atal unrhyw daliad o Grant a fyddai fel arall yn daladwy; ac/neu

11.2.3 ei gwneud yn ofynnol i Chi ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r Grant yr ydym Ni wedi'i dalu i Chi.

11.3 Os ydym Ni yn gofyn am ad-dalu'r Grant, rhaid i Chi dalu'r swm sy'n ofynnol i Ni mewn cronfeydd wedi'u clirio'n llawn o fewn pymtheg diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi Ein cais ysgrifenedig am daliad.

12 **YSWIRIANT**

12.1 Byddwch yn gweithredu a chynnal polisi neu bolisïau priodol gyda chwmni yswiriant ag enw da mewn perthynas â'r holl risgiau y gallech Chi eu hwynebu a gyfyd o Eich perfformiad o'r Cytundeb, gan gynnwys marwolaeth neu anaf personol, colli neu ddifrod i eiddo neu unrhyw golled arall.

13 **INDEMNIADAU A CHYDNABYDDIAETH**

13.1 Byddwch yn atebol am ac yn ein hindemnio Ni yn llawn am unrhyw dreuliau, atebolrwydd, colled, hawliad neu achos sy'n codi o dan statud, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), contract a/neu yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas ag anaf personol neu farwolaeth unrhyw berson neu golled neu ddifrod i eiddo (p'un a yw'n perthyn i Ni neu fel arall) neu unrhyw hawliad gan unrhyw drydydd parti sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol allan o'r Prosiect a/neu berfformio neu beidio â chyflawni neu oedi wrth gyflawni Eich rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn ac eithrio i'r graddau bod yr un peth yn digwydd oherwydd unrhyw weithred neu esgeulustod gennym.

13.2 Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ganlyniadau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a allai ddigwydd oherwydd Eich bod yn rhedeg y Prosiect, y defnydd o'r Grant neu o dynnu'r Grant yn ôl. Mae ein rhwymedigaeth o dan y cytundeb hwn wedi'i gyfyngu i dalu'r Grant.

14 **ILDIO HAWL**

Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi gan y naill barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedi o dan y cytundeb hwn yn cael ei ddehongli fel ildiad o unrhyw hawl neu rwymedi arall.

15 **TROSGLWYDDO**

Mae cynnig y Grant yn bersonol i Chi. Oni bai ein bod Ni wedi cytuno yn benodol yn ysgrifenedig fel arall, ni chewch Chi aseinio, arloesi, trosglwyddo, is-gontractio na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall naill ai fudd y Grant nac unrhyw un o'ch rhwymedigaethau Chi o dan y Cytundeb hwn.

16 **TAW**

Rydych Chi ac rydym Ni yn deall ac yn cytuno nad yw'r Grant gennym Ni o dan y Cytundeb hwn yn ystyriaeth am unrhyw gyflenwad ar gyfer dibenion Treth ar Werth (**"TAW"**) p'un ai gennych Chi neu fel arall. Os, er y cytundeb a'r ddealltwriaeth rhyngoch Chi a Ni, y penderfynir bod y Grant yn ystyriaeth am gyflenwad at ddibenion TAW, bydd y Grant yn cael ei drin fel un sy'n cynnwys unrhyw TAW.

17 **RHYDDID GWYBODAETH**

17.1 Rydych yn cydnabod ein bod Ni yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (**FOIA**) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (**EIRs**).

17.2 Byddwch yn:

17.2.1 darparu yr holl gymorth a chydweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir yn rhesymol gennym Ni i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau Ni o dan FOIA a'r EIRs;

17.2.2 trosglwyddo i Ni bob cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r cytundeb hwn a dderbyniwch Chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w dderbyn;

17.2.3 darparu copi i Ni o'r holl wybodaeth sy'n perthyn i Ni y gofynnwyd amdani yn y cais am wybodaeth sydd yn Eich meddiant neu reolaeth ar y ffurf sydd ei hangen arnom Ni o fewn 5 diwrnod gwaith (neu gyfnod arall y gallwn Ni ei nodi'n rhesymol) o'n cais Ni am wybodaeth o'r fath;

17.2.4 a pheidio ag ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni bai eich bod wedi eich awdurdodi'n ysgrifenedig i wneud hynny gennym Ni.

17.3 Rydych yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i Ni o dan y FOIA a'r EIRs ddatgelu gwybodaeth heb ymgynghori neu gael caniatâd gennych Chi ac y byddwn Ni yn gyfrifol am benderfynu yn ôl Ein disgresiwn llwyr a yw unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â'r FOIA a/neu'r EIRs.

## 18 CYHOEDDUSRWYDD

18.1 Byddwch yn cydnabod y Grant yn eich adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys cydnabyddiaeth mai Ni yw ffynhonnell y Grant.

18.2 Rhaid i chi beidio â rhoi cyhoeddusrwydd na hyrwyddo'r Grant heb ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw, a rhaid i unrhyw gyfeiriad atom Ni neu'r Grant mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a/neu hyrwyddo sy'n ymwneud â'r Prosiect gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gennym Ni.

18.3 Rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r holl ddata a ddarperir gennych Chi mewn perthynas â'r Grant at ddibenion cyhoeddusrwydd neu hyrwyddo.

## 19 DATRYS ANGHYDFOD

19.1 Os bydd unrhyw gŵyn neu anghydfod (nad yw'n ymwneud â'n hawl i atal arian neu derfynu) yn codi rhwng y partïon i'r cytundeb hwn mewn perthynas â'r cytundeb hwn, dylid cyfeirio'r mater yn gyntaf i'w ddatrys at Reolwr y Rhaglen Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G + neu unrhyw unigolyn arall a enwebir gennym Ni o bryd i'w gilydd.

19.2 Os yw'r gŵyn neu'r anghydfod yn parhau heb ei ddatrys cyn pen 14 diwrnod i'r mater gael ei gyfeirio am y tro cyntaf at Reolwr y Rhaglen Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ neu unigolyn enwebedig arall, yn ôl y digwydd, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r mater at yr Uwch Swyddogion Anghydfod gyda chyfarwyddyd i geisio datrys yr anghydfod drwy gytundeb o fewn 28 diwrnod, neu unrhyw gyfnod arall y cytunir ar y cyd rhyngoch Chi a Ni.

19.3 Yn absenoldeb cytundeb o dan Gymal 19.2, efallai y byddwch Chi a Ni yn ceisio datrys y mater trwy gyfryngu o dan y Weithdrefn Cyfryngu Enghreifftiol CEDR (neu unrhyw fodel

datrys anghydfod priodol arall y cytunir rhyngoch Chi a Ni). Oni chytunir fel arall, byddwch Chi a Ni yn talu costau a threuliau'r cyfryngu yn gyfartal.

19.4 Os bydd anghydfod o dan Gymal 4.5, bydd anghydfod o'r fath yn cael ei ddatrys trwy ddilysu perfformiad a wneir gan drydydd parti annibynnol a nodir ar ddyddiad y Cytundeb hwn. Bydd costau dilysu annibynnol o'r fath yn cael eu talu gennych oni bai bod y trydydd parti annibynnol yn penderfynu bod y perfformiad a adroddwyd yn sylweddol gywir, ac yn yr achos hwnnw bydd y costau yn cael eu talu gennym Ni.

## 20 DIM PARTNERIAETH NAC ASIANTAETH

Ni fydd y cytundeb hwn yn creu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhyngoch Chi a Ni, nac unrhyw berthynas rhwng pennaeth ac asiant, nac yn awdurdodi unrhyw barti i wneud neu ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ar gyfer neu ar ran y parti arall.

## 21 Y CYTUNDEB CYFLAWN

Mae'r Cytundeb hwn yn ffurfio'r cytundeb cyflawn rhyngoch Chi a Ni sy'n ymwneud â'i bwnc ac mae'n disodli'r holl drafodaethau, sylwadau ac ymrwymiadau blaenorol pryd bynnag yr oeddent yn digwydd.

## 22 CYFRAITH BERTHNASOL

Mae'r Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr. Os canfyddir bod unrhyw ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy gan lys awdurdodaeth gymwys, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei gwahanu oddi wrtho a bydd gweddill darpariaethau'r Cytundeb hwn fel arall yn parhau i fod mewn grym ac effaith lawn.

## ATODLEN 2

## ALLBYNNAU A CHERRIG MILLTIR

Rhaid i'r Prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr 2030 fan bellaf a rhaid gwneud pob taliad o'r Grant erbyn 31 Mawrth 2030 fan bellaf. Rhaid cyflawni'r holl Allbynnau erbyn 31 Mawrth 2036 fan bellaf.

**Allbynnau**

| ALLBWN | TARGED |
|---|---|
| [Uwchraddio asedau wedi'i gyflwyno i'r fanyleb dechnegol y cytunwyd arni (parodrwydd safle wedi'i gyflawni) | [Meini prawf parodrwydd asedau a gofynion dilysu] |
| [Mynediad Agored wedi'i weithredu ac ar gael ar sail nad yw'n unigryw, heb wahaniaethu | [Nifer a statws y Cytundebau Mynediad Agored i'w cytuno] |
| [Llwybr defnyddio clir sy'n cael ei dystiolaethu gan ymgysylltu â gweithredwyr a / neu lwybr credadwy i ddefnyddio. | [Manylion ymrwymiad defnyddio ac amserlenni i'w cytuno] |
| [Gwell cwmpas 4G / 5G trwy ddefnyddio'r Asedau a Ariennir o fewn cyfnod diffiniedig | [Mesurau gwella cwmpas ac amserlenni i'w cytuno] |
| [Buddsoddiad uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y sector preifat wedi'i drosoli o ganlyniad i'r asedau wedi'u huwchraddio | [Swm neu ddisgrifiad o'r buddsoddiad sector preifat i'w gytuno] |
| [Ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori (gan gynnwys mesurau i leihau carbon ymgorfforedig a gweithredol)] | [Mesurau a thargedau cynaliadwyedd i'w cytuno, fel y nodir yn y Cynllun Defnyddio] |
| [Gwerth cymdeithasol wedi'i gyflawni | [Ymrwymiadau a thargedau gwerth cymdeithasol i'w cytuno] |

2. **Cerrig Milltir**

| CARREG FILLTIR | DYDDIAD TARGED |
|---|---|
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |

**ATODLEN 3**

**RHAGOLWG GWARIANT**

*[Mewnosodwch yr eitemau gwariant a'r rhagolwg penodol. Gall gwariant cymwys gynnwys (yn amodol ar gytundeb): ailosod neu atgyfnerthu colofnau goleuo, polion, mastiau, toeau neu strwythurau eraill; uwchraddio pŵer (cyflenwadau, pileri bwydo, ceblau, daearu, mesurydd); gwaith galluogi ôl-drosglwyddo ffibr, dwythellau a chysylltedd; gwelliannau mynediad a llwyfannau gweithio diogel; arolygon a dyluniad sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith cyfalaf; a chyfalafu costau llafur rheoli a gweithredu'r prosiect.]*